

TAFLEN WYBODAETH


AMENDAN

PWY YDYM NI

Wedi ein lleoli mewn swyddfeydd yn Southampton, mae'r MAIB yn gangen o'r Adran Drafnidiaeth. Mae gan y Gangen bedwar tîm o ymchwilywyr damweiniau profiadol, pob un yn cynnwys prif arolygydd a thri arolygydd o ddisgyblaethau morwrol, peirianeg, pensaernïaeth lyngesol neu bysgota. Cefnogir yr arolygon gan dîm gweinyddol sydd hefyd yn delio â chyllid, contractau, dadansoddiad data a chyhoeddiadau.

EIN GWAITH

Rôl yr MAIB yw cyfrannu tuag at ddiogelwch ar y môr trwy bennu achosion ac amgylchiadau damweiniau morol a gweithio gydag eraill i leihau'r tebygolrwydd y bydd damweiniau o'r fath yn digwydd eto yn y dyfodol. Cyflawnir ymchwiliadau damweiniau er lles diogelwch yn y dyfodol yn unig. Nid yw'r Gangen yn ceisio pennu pwy sydd ar fai, ac nid yw'n sefydlu atebolrwydd, yn gorfodi cyfreithiau na'n cyflawni erlyniadau.



02 DAMMWEINWYR MARINE

BETH YW DAMWAIN?

Ceir y diffiniad llawn o ddamwain yn rheoliadau galluogi MAIB. I grynhoi, mae damwain yn ddigwyddiad annymunol sydd wedi digwydd yn uniongyrchol gan, neu mewn cysylltiad â gweithrediad llong, sydd wedi arwain at:

- ▶ gollu neu adael y llong;
- ▶ marwolaeth, anaf difrifol, neu gollu rhywun o long;
- ▶ taflu llong ar draeth neu analluogi llong;
- ▶ difrod materol i'r llong, llong arall neu strwythur morol; ac/neu
- ▶ lygredd difrifol.

Dylid adrodd ar ddamweiniau, yn cynnwys anafiadau difrifol, i'r MAIB trwy'r modd cyflymaf posibl i alluogi arolygwyr i ddechrau ymchwiliad cyn i dystiolaeth allweddol ddirywio, gael ei thynnu neu ei cholli. Mae gan yr MAIB linell adrodd benodol i'r perwyl hwn, ac mae staff yn ateb y llinell 24 awr y dydd.

Llinell adrodd MAIB yw: 023 8023 2527

Tu allan i'r Deyrnas Unedig, ffoniwch: +44 (0)23 8023 2527



03 GAMMAU NESAF

BETH SY'N DIGWYDD WEDI ADRODD AR DDAMWAIN?

Yn dilyn hysbysiad o ddamwain, mae arolygwyr yr MAIB yn casglu cymaint o dystiolaeth â phosibl er mwyn gwneud penderfyniad ar sut i fwrw ymlaen. Mewn achosion difrifol iawn, bydd ymchwiliad diogelwch yn cychwyn ar unwaith. Ar gyfer damweiniau eraill, efallai y bydd angen cynnal Aseiad Cychwynnol ble cesglir rhagor o fanylion i sefydlu a oes angen ymchwiliad pellach neu beidio. Fel arfer, gwneir y penderfyniad o fewn pythefnos i'r ddamwain, a bydd pob parti sydd ynghlwm yn cael hysbysiad.



04 YMGHWILLIO

YMCHWILIAD MAIB

Mae pob ymchwiliad i ddamweiniau yn ceisio cael ateb i bedwar cwestiwn sylfaenol:

- ▶ beth ddigwyddodd?
- ▶ sut wnaeth hyn ddigwydd?
- ▶ pam wnaeth hyn ddigwydd?
- ▶ beth ellir ei wneud i atal hyn rhag digwydd eto?

Gwaith maes ac ymholiadau cychwynnol

Yn ystod camau cynnar ymchwiliad, bydd arolygwyr yn casglu cymaint o wybodaeth â phosibl yn ymwneud â'r ddamwain. Fel arfer, bydd hyn yn golygu ymweld â'r llong neu longau, cyfwdel â'r criw, teithwyr, staff ar dir sych, a thystion neu orosywyr eraill, a chasglu tystiolaeth gorfforol ac electronig. Yn lleoliad y ddamwain, gall yr arolygydd dynnu lluniau neu fideo o ardaloedd perthnasol ac eitemau o offer, neu gall archwilio llyfrau log, cofnodion eraill, cymwysterau a thystysgrifau'r criw. Os oes gan y llong recordydd data taith, bydd y data yn cael ei dynnu a'i archwilio yn swyddfeydd yr MAIB. Os yw llong wedi suddo, gellir contractio arolygon cerbyd a weithredir o bell ac/neu ddeifwyr i gynorthwyo yn yr ymchwiliad. Gellir dadansoddi eitemau o offer a fethodd yn annibynnol i bennu modd y methiant. Yna bydd yr arolygydd yn dadansoddi'r dystiolaeth ac yn defnyddio hyn i bennu'r ffactorau achosol a chyfrannol a arweiniodd ar y ddamwain.



Adroddiad yr ymchwiliad

Unwaith y bydd y cyfnod ymchwiliad gweithredol wedi ei gwblhau, cynhyrchir adroddiad, yn cynnwys argymhellion ble fo'n briodol. Mae pob adroddiad ymchwiliad yn cael ei ddsbarthu ar gyfer ymgynghoriad i randdeiliaid ac unrhyw un ble gallai ei gynnwys effeithio ar eu henw da. Os bu farw rhywun yn y ddamwain, fe anfonir yr adroddiad at eu perthynas agosaf. Mae'r cyfnod ymgynghori 30 niwrnod yn galluogi partion cysylltiedig i wirio'r ffeithiau a dadansoddiad yn yr adroddiad, a chyflwyno unrhyw awgrymiadau neu gywiriadau. Bydd pob cyflwyniad yn cael ei ystyried, a'r adroddiad yn cael ei addasu os oes angen, cyn y bydd yn cael ei gyhoeddi a'i ddarparu i'r cyhoedd.

Argymhellion

Efallai y bydd adroddiadau ymchwiliadau yn cynnwys argymhellion wedi eu hanelu at atal damweiniau tebyg yn y dyfodol. Cyhoeddir argymhellion yn adroddiad yr ymchwiliad ac yn Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Er nad oes unrhyw orfodaeth dan gyfraith i'r argymhellion, mae yna ofyniad i dderbynwyr adrodd a ydynt yn derbyn yr argymhelliad neu beidio ac, os y'i derbynir, sut fydd yn cael ei ddwyn ymlaen. Fel arfer bydd sylwadau a dderbynir gan dderbynyddion argymhellion sydd wedi eu gwrthod neu sydd wedi eu derbyn yn rhannol yn y parth cyhoeddus trwy Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd i'r Ysgrifennydd Gwladol.





5 NEGES DIOGELWCH

LLEDAENU'R NEGES DDIOGELWCH

Bwletin Diogelwch (Safety Bulletin)

O bryd i'w gilydd, mae angen lledaenu materion ac argymhellion diogelwch brys yn gyflym i atal damwain debyg rhag digwydd. Lledaenir negeseuon diogelwch o'r fath trwy Fwletin Diogelwch.

Taflen Diogelwch (Safety Flyer)

Mae'r MAIB yn cynhyrchu taflenni diogelwch hefyd, a gyhoeddir ar yr un pryd ag adroddiad ymchwiliad, ond sy'n amlygu'r gwersi diogelwch yn benodol i sectorau perthnasol y gymuned forol.

Crynhoad Diogelwch (Safety Digest)

Ddwywaith y flwyddyn, mae'r MAIB yn cyhoeddi ei Chrynhoad Diogelwch. Mae hwn yn gyhoeddiad am ddim, sydd ar gael i bawb, ond fe'i cynhyrchir yn bennaf ar gyfer gweithwyr morol. Mae'r Crynhoad Diogelwch yn cynnwys casgliad o adroddiadau cryno o ddamweiniau ac achosion ond heb unrhyw fanylion hunaniaeth i'w gwneud yn ddienw. Ysgrifennir yr erthyglau mewn arddull cryno, wedi ei gynllunio i amlygu unrhyw faterion a gwersi a ddysgwyd o bob digwyddiad.

Gellir gweld holl gyhoeddiadau MAIB a'u lawrlwytho ar ffurf pdf o wefan y Gangen. Mae copïau wedi eu hargraffu ar gael yn rhad ac am ddim o'r Gangen.

Cyflwyniadau

Mae personél yr MAIB yn rhoi cyflwyniadau mewn colegau morol ac i gymdeithasau, sefydliadau a chlybiau morol yn rheolaidd gyda'r nod o ledaenu'r neges ddiogelwch ledled y diwydiant ac, yn benodol, i'r genhedlaeth nesaf o forwyr.

YSTADEGAU

Mae'r MAIB yn cynnal cronfa ddata o ddigwyddiadau adroddadwy sydd wedi digwydd ers 1991. Mae hyn yn darparu trosolwg o dueddiadau mewn damweiniau morol ac yn llunio storfa gynhwysfawr a hygyrch o wybodaeth. Cyhoeddir ystadegau Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

MANYLION CYSWLLT

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r MAIB, ac i gael mynediad at adroddiadau a gwybodaeth ymchwiliadau, ewch i neu cysylltwch â'r MAIB yn y cyfeiriad isod:

Marine Accident Investigation Branch (Cangen Ymchwilio Damweiniau Morol)

First Floor, Spring Place
105 Commercial Road
Southampton
SO15 1GH
United Kingdom

Ffôn: +44 (0)23 8039 5500
E-bost: iso@maib.gov.uk
Gwefan: www.gov.uk/maib

Diogelu Data

Mae'r MAIB yn cyflawni ei waith o dan ddarpariaethau Rheoliadau Llongau Masnachol (Adrodd ac Ymchwilio i Ddamweiniau) 2012. Mae'r Rheoliadau hyn, ac Adrannau 259, 260 a 267 o Ddeddf Llongau Masnachol 1995 y gwnaed y Rheoliadau oddi tanynt, yn caniatáu i'r MAIB gael unrhyw wybodaeth sy'n angenrheidiol i gynnal ei hymchwiliad.

Mae pŵer y MAIB i brosesu data personol yn cydymffurfio â darpariaethau Erthygl 6 1. (e) o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) lle mae "*prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth ymarfer awdurdod swyddogol wedi'i freinio yn y rheolwr*". Esbonnir hyn yn fanylach yn Adran 8 Deddf Diogelu Data 2018.

Mae'r MAIB yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a ddisgrifir uchod at ddibenion cynnal ei ymchwiliadau yn effeithlon. Diogelir y wybodaeth hon rhag cael ei rhyddhau gan adran 259 (12) o Ddeddf Llongau Masnachol 1995 a darpariaethau Rheoliadau Llongau Masnachol (Adrodd ac Ymchwilio i Ddamweiniau) 2012 Rheoliad 13.

I ddarllen mwy ar sut mae GDPR yn effeithio ar y ffordd rydyn ni'n defnyddio ac yn storio'ch data, ewch i:

<https://www.gov.uk/government/organisations/marine-accident-investigation-branch/about/personal-information-charter>

